
estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y modd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Chwefror 2016



# Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y modd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## 1 Cyflwyniad

Yn ystod hydref 2015, cynhaliodd Estyn ymgynghoriad cyhoeddus, ledled y wlad, ar drefniadau arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd tair ffurf i'r ymgynghoriad hwn, sef: arolwg ar-lein, cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol a phrosiect ymchwil gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i lywio cynigion ar gyfer trefniadau arolygu yn y dyfodol, a fydd yn dechrau ym Medi 2017. Gellir cael rhagor o wybodaeth am brosesau arolygu presennol Estyn yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015.

## 2 Methodoleg

Lansiodd Estyn yr ymgynghoriad ar 30 Medi 2015. Roedd ymatebwyr yn gallu naill ai ateb prif fersiwn yr arolwg (cyfeirir at hyn fel prif arolwg yr ymgynghoriad) neu fersiwn yn addas ar gyfer pobl ifanc. Gellid llenwi'r ddwy fersiwn naill ai ar-lein neu drwy ddogfen PDF. Caewyd yr ymgynghoriad ar 11 Tachwedd 2015.

Yn ystod tymor yr hydref 2015, cyfarfu Estyn â rhanddeiliaid allweddol hefyd i drafod cwestiynau'r ymgynghoriad a chasglu barn mewn fformat grŵp ffocws.

Yn Nhachwedd 2015, comisiynwyd Arad Research gan Estyn i gynnal yr arolwg gyda grwpiau yn anodd eu cyrraedd. Fe wnaethant ofyn i sefydliadau lenwi'r fersiwn o'r holiadur yn addas ar gyfer pobl ifanc a'i ddosbarthu ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Fe wnaethant gwblhau trafodaethau wyneb yn wyneb â grŵp o bobl â nam ar y clyw hefyd ac unigolion â phroblemau iechyd meddwl.

## 3 Proffil ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Cafodd Estyn 1,998 o gyflwyniadau i arolwg yr ymgynghoriad, yr oedd 1,900 o'r rhain i arolwg y prif ymgynghoriad, a 98 ohonynt i'r fersiwn yn addas ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, roedd 30 o'r ymatebion hyn yn wag, a oedd yn golygu bod cyfanswm o 1,968 o ymatebion wedi cael eu dadansoddi. Roedd saith deg dau y cant o ymatebion gan weithwyr addysg proffesiynol, 12% gan rieni/gofalwyr, 8% gan ddysgwyr, 2% gan aelodau o'r cyhoedd a 6% gan grwpiau 'eraill'. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn y categori 'arall' oddi wrth lywodraethwyr, ond roeddent hefyd yn cynnwys sefydliadau fel undebau, darparwyr dysgu yn y gwaith, rheolwyr meithrinfeydd a gweithwyr addysg proffesiynol wedi ymddeol. Cyflwynwyd un deg tri y cant o ymatebion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hwylusodd Estyn gyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), yn ogystal â phenaethiaid ac ymgynghorwyr her o'r consortia rhanbarthol.

Cafwyd 88 o ymatebion i'r arolwg ar gyfer grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Roedd y rhain yn cynnwys mewnfudwyr, pobl ag anableddau corfforol, pobl â namau ar y

golwg neu’r clyw, pobl ag anawsterau dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl, y gymuned sipsiwn a theithwyr a phobl o gymunedau gwledig neu anghysbell iawn.

## 4 Data’r ymgynghoriad

Mae’r adran hon yn cyflwyno’r canfyddiadau o bob un o dair rhan yr ymgynghoriad. Ychydig iawn o wahaniaethau o ran tueddiadau ymateb a ddangoswyd o gymharu canlyniadau o arolwg y prif ymgynghoriad, yr arolwg oedd yn addas ar gyfer pobl ifanc a’r arolwg ar gyfer grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd, felly cyfunwyd yr ymatebion gyda’i gilydd, lle bo’n briodol, i ffurfio safbwyntiau cyffredinol ar gyfer pob cwestiwn. Caiff unrhyw wahaniaethau allweddol eu hamlygu yn y testun cysylltiedig. Caiff y prif negeseuon o gyfarfodydd y fforwm rhanddeiliaid eu cynrychioli ochr yn ochr â sylwadau o’r arolygon ar-lein a thrafodaethau gyda grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd, fel ei gilydd.

### 4.1 Cynllunio arolygiadau cychwynnol


Beth ofynnom ni?

Ar hyn o bryd, mae pob darparwr addysg a hyfforddiant yn destun yr un cylchoedd arolygu, ac fe gânt eu harolygu yn yr un ffordd. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg p’un a ddylid parhau i gynllunio arolygiadau fel hyn yn y dyfodol, a ddylid eu trefnu yn unol â’r modd y cawsant eu trefnu gan ddarparwyr yn eu harolygiad diwethaf neu a ddylai Estyn ystyried dull arall ar gyfer cynllunio arolygiadau.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Dangosodd ymatebwyr ffafriaeth tuag at Estyn yn ystyried canlyniadau arolygiadau blaenorol a gwybodaeth arall cyn penderfynu sut i arolygu darparwr (55%). Dangosodd traean o ymatebwyr ffafriaeth i’w gadw'r un fath, ac roedd 12% o’r farn y dylai Estyn gynllunio arolygiadau mewn ffordd wahanol. Roedd dysgwyr yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ddangos ffafriaeth i’r broses aros yr un fath. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod yn ofalus wrth lunio casgliadau o’r ymatebion hyn gan fod synnwyr o gamddehongli ynglŷn â’r cwestiwn hwn. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y broses arolygu yn eu hatebion yn hytrach na chynllunio arolygiadau.

**Ffigur 1:  Cynllunio arolygiadau cychwynnol**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=2,046

Roedd trafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o gynllunio arolygiadau cychwynnol ar sail risg yn gadarnhaol ar y cyfan yng nghyfarfodydd y fforwm rhanddeiliaid, ac roedd y rhai a fynychodd o'r farn y byddai'r dull hwn yn helpu ysgolion i symud oddi wrth y diwylliant o ganolbwyntio'n fwy ar berfformiad wrth agosáu at arolygiad.

### 4.2.1 Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion


Beth ofynnom ni?

Ar hyn o bryd, os yw arolygwyr yn barnu bod angen rhagor o gymorth ar ysgol, gallant roi'r ysgol mewn un o bedwar categori gweithgarwch dilynol, sef: monitro gan yr awdurdod lleol neu fonitro gan Estyn, a chategorïau statudol gwelliant sylweddol a mesurau arbennig.  Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg p'un ai'r dull hwn oedd y ffordd orau o helpu ysgolion i wella.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Ymatebodd dwy fil a dau ddeg pump o bobl i'r cwestiwn hwn, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn credu bod y trefniadau presennol yn effeithiol.  Roedd dysgwyr ac ymatebwyr o grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn fwy tebygol o nodi bod y trefniadau yn effeithiol, tra roedd rhieni'n fwy tebygol o nodi nad ydynt yn effeithiol.

**Ffigur 2: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion**





Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=2,025

### 4.2.2 Gweithgarwch dilynol mewn darparwyr ôl-16

Ar hyn o bryd, gellir rhoi darparwyr ôl-16 mewn un o ddau gategori, sef monitro gan Estyn ac ailarolygiad. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r prif ymgynghoriad hefyd a yw gweithgarwch dilynol mewn darparwyr ôl-16 yn effeithiol, ac roedd traean o'r 1,722 o ymatebwyr yn cytuno. Roedd hanner yr ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â'u safbwyntiau am weithgarwch dilynol yn y sector ôl-16, sy'n adlewyrchu'r gyfran fwy o ymatebwyr oedd â mwy o ddiddordeb yn y sectorau ysgol ac efallai eu bod yn llai cyfarwydd â sectorau ôl-16.

**Ffigur 3: Gweithgarwch dilynol mewn darparwyr ôl-16**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=1,722

### 4.2.3 Sylwadau ar weithgarwch dilynol

Roedd hyblygrwydd a natur cymorth dilynol yn thema allweddol trwy gydol y sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Teimlai llawer o'r ymatebwyr hyn y dylai ymweliadau dilynol fod yn fwy cefnogol, gydag Estyn yn helpu i arwain y darparwr ar eu taith i wella. Ychydig iawn ohonynt a ddywedodd y gellid cyflawni hyn trwy gael yr un arolygydd arweiniol o'r arolygiad craidd yn ymweld â'r ysgol ar gyfer ymweliadau dilynol. Roedd ychydig iawn o bobl eraill o'r farn y dylai trefniadau dilynol fod yn fwy hyblyg, gyda nifer yr ymweliadau, y math o gymorth a'r graddfeydd amser rhwng ymweliadau yn unigryw i bob darparwr i fodloni eu hanghenion.

Roedd meysydd pryder a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r trefniadau dilynol presennol yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y monitro gan awdurdodau lleol, a chael cysondeb gwell yn y dull rhwng ysgolion a sectorau ôl-16.

Roedd pobl a fynychodd cyfarfodydd y fforwm i randdeiliaid hefyd yn croesawu dull mwy hyblyg ar gyfer ymweliadau monitro, gan ffafrio rhoi rhywfaint o ystyriaeth i fonitro desg a graddfeydd amser hyblyg.

## 4.3 Fframwaith arolygu cyffredin Estyn


Beth ofynnom ni?

Mae Estyn yn defnyddio fframwaith arolygu cyffredin (FfAC) ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 10 maes, sy'n cael eu harolygu ym mhob darparwr. Gofynnwyd i ymgynghoreion pa mor bwysig oedd pob un o'r meysydd yn eu barn nhw, trwy eu graddio ar raddfa bedwar pwynt, o bwysig iawn i ddim yn bwysig o gwbl.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

At ei gilydd, ystyriwyd mai addysgu a dysgu; arweinyddiaeth a rheolaeth; a gofal, cymorth ac arweiniad oedd yr agweddau pwysicaf ar y FfAC, ac ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth; gwella ansawdd; a rheoli adnoddau yn llai pwysig.

**Ffigur 4: Y Fframwaith arolygu cyffredin**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=1,978-2,015

Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau nodedig rhwng grwpiau. Roedd y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd o'r farn mai gofal, cymorth ac arweiniad; lles; a'r amgylchedd dysgu oedd y meysydd pwysicaf, ac yn rhoi llai o bwysigrwydd i addysgu a dysgu; arweinyddiaeth a rheolaeth; a safonau. Yn ychwanegol, roedd dysgwyr yn rhoi mwy o werth i safonau a llai o werth i arweinyddiaeth a rheolaeth o gymharu â grwpiau eraill.

Ysgogwyd ymatebion tebyg gan yr arolwg a chyfarfodydd y fforwm i randdeiliaid mewn perthynas ag agweddau amrywiol ar y FfAC. Roedd teimlad cryf y dylai safonau ganolbwyntio mwy ar y cynnydd a wna dysgwyr dros gyfnod. Roedd teimlad cryf hefyd na ddylai barnau ar gyfer lles gael eu gyrru gan ddata presenoldeb. Teimlai ymatebwyr eraill y dylai'r fframwaith arolygu gynnwys arolygu'r meysydd dysgu a phrofiad (o'r adolygiad cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus, Donaldson, 2015), yn ogystal ag ystyried lles a baich gwaith staff.

Teimlai ymatebwyr hefyd y dylai'r ffocws ar 'wella ansawdd' ar gyfer darparwyr rhagorol fod ar ddisgwyliadau i gynnal eu perfformiad uchel, yn hytrach na dim ond gwella ymhellach.

## 4.4 Geiriau barn Estyn


Beth ofynnom ni?

Mae Estyn yn defnyddio pedwar gair barn i farnu ansawdd ac effeithiolrwydd darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar hyn o bryd, sef Rhagorol, Da, Digonol ac Anfoddhaol. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg p'un a ddylai Estyn gadw'r pedwar gair hyn, yn eu barn nhw.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Cafwyd ymateb cymysg i’r cwestiwn, a nododd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr y dylid cadw’r geiriau barn.

**Ffigur 5: Geiriau barn Estyn**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd, N=2,024

Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau nodedig, gyda dau o bob tri o’r ymatebwyr o’r grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd yn nodi y dylid cadw’r geiriau barn, o gymharu â dau o bob pump o weithwyr addysg proffesiynol yn unig.

Gofynnwyd i ymatebwyr i’r arolwg a nododd y dylid diwygio’r geiriau barn presennol gynnig awgrymiadau am eiriau barn neu raddfeydd diwygiedig. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr a roddodd sylwadau i’r arolwg yn teimlo bod angen newid y gair ‘Digonol’. Roedd llawer o’r ymatebwyr hyn o’r farn nad yw’r diffiniad presennol yn adlewyrchu’r gair yn ddigon da. Mynegodd nifer o ymatebwyr hefyd eu bod yn ffafrio cynyddu’r raddfa i bum gair er mwyn gallu mireinio’r categori ‘Da’ i gynnwys ‘Da Iawn’. Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer graddfa bum pwynt oedd Rhagorol, Da Iawn, Da, Boddhaol ac Anfoddhaol. Roedd ymatebwyr ychydig yn ansicr hefyd ynglŷn â’r diffiniad o beth yw ‘arfer sy’n arwain y sector’ o fewn y disgrifydd barn Rhagorol. Cafodd y themâu hyn eu codi a’u trafod gan y rhai a fynychodd yng nghyfarfodydd y fforwm i randdeiliaid hefyd.

## 4.5 Nifer y barnau


Beth ofynnom ni?

Mae Estyn yn llunio 15 barn ar hyn o bryd. Un ar bob un o’r 10 dangosydd ansawdd a amlinellir yn y FfAC uchod, un ar bob un o’r 3 chwestiwn allweddol (Pa mor dda yw’r deilliannau? Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? a Pha mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?) a dwy farn gyffredinol am berfformiad presennol a rhagolygon gwella. Gofynnwyd i ymatebwyr i’r arolwg beth oedd eu barn am y nifer hon o farnau.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Roedd ychydig llai na hanner o'r farn fod nifer y barnau y mae Estyn yn eu llunio fwy neu lai'n gywir, a 43% o'r farn fod gormod o farnau. Roedd y patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu'n fras gan bob grŵp o ymatebwyr.

**Ffigur 6: Nifer y barnau**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=2,020

Dywedodd ymatebwyr a oedd o'r farn y dylid cael llai o farnau fod nifer bresennol y barnau yn ddryslyd i rieni a bod angen ei symleiddio. Teimlai rhai ohonynt y byddai hyn yn gwneud yr adroddiadau'n fwy hygyrch hefyd ac yn pwysleisio'r meysydd blaenoriaeth. Fe wnaeth y rheiny a oedd o'r farn fod nifer y barnau'n gywir roi sylwadau ar ehangder y gweithgareddau sy'n cael eu cwmpasu ac roeddent yn pryderu y gallai dileu rhai agweddau achosi i ddarparwyr beidio â sylwi ar y meysydd hyn.

## 4.6 Cyfnod rhybudd


Beth ofynnom ni?

Mae Estyn yn gweithredu cyfnod rhybudd 20 diwrnod gwaith ar hyn o bryd. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg beth oedd eu barn ynglŷn â hyd y cyfnod rhybudd hwn, a beth yw'r cyfnod rhybudd y maen nhw'n ei ffafrio.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Roedd hanner yr ymatebwyr o'r farn fod y cyfnod rhybudd yn gywir, a theimlai 31% ei fod yn rhy hir. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y gwahaniaethau rhwng grwpiau ymatebwyr: roedd rhieni, y cyhoedd a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn fwy tebygol o nodi bod y cyfnod rhybudd yn rhy hir, tra oedd gweithwyr addysg proffesiynol yn fwy tebygol o nodi bod y cyfnod rhybudd presennol yn gywir.

**Ffigur 7:  Cyfnod rhybudd**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=2,022

O'r 934 o ymatebwyr a nododd gyfnod rhybudd y maent yn ei ffafrio, roedd 20% o'r farn na ddylid cael unrhyw gyfnod rhybudd, roedd 16% o'r farn y dylai'r cyfnod rhybudd fod yn llai nag wythnos, a dywedodd 7% arall y dylai fod rhwng wythnos a phythefnos.  Dywedodd 106 o ymatebwyr yn ychwanegol y dylai fod yn llai na 20 diwrnod gwaith ond ni wnaethant nodi hyd.

Roedd y rhesymau a roddwyd dros leihau'r cyfnod rhybudd yn cynnwys gweld y darparwr fel y maent bob dydd neu leihau straen a phwysau ar staff yn y tymor hir. Roedd ymatebwyr a oedd o'r farn y dylid cynyddu'r cyfnod rhybudd yn teimlo nad oedd y 20 diwrnod presennol yn ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr arolygiad o amgylch ymrwymiadau presennol.

Yn ogystal â thrafodaethau am lawer o'r ffactorau uchod, roedd y bobl a fynychodd cyfarfodydd y fforwm i randdeiliaid yn pryderu na ddylid hysbysu darparwyr cyn gwyliau'r haf, o dan y trefniadau arolygu newydd.  Roeddent yn teimlo hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ysgolion allu llwytho eu hadroddiadau hunanarfarnu'n rhwyddach i hwyluso unrhyw leihad yn y cyfnod rhybudd.

## 4.7 Cynnwys rhieni/gofalwyr, dysgwyr, staff a llywodraethwyr


Beth ofynnom ni?

Mae Estyn yn defnyddio holiaduron ar-lein ar hyn o bryd i gael safbwyntiau rhieni/gofalwyr a dysgwyr.  Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg p'un a fyddai'n ddefnyddiol darparu holiaduron ar-lein tebyg ar gyfer staff a llywodraethwyr, i sicrhau eu bod nhw hefyd yn cael cyfle i roi eu barn.

Beth ddywedodd yr ymatebwyr?

Roedd cefnogaeth eithaf cryf dros barhau â'r holiaduron i rieni/gofalwyr a dysgwyr fel ei gilydd, a darparu holiaduron ar gyfer staff. Roedd cefnogaeth i ddarparu holiaduron i lywodraethwyr hefyd, ond i raddau llai. Yn ychwanegol, nododd 80% o ymatebwyr y dylai'r cyfarfod rhieni barhau fel rhan o arolygiad.

**Ffigur 8: Cyfarfod rhieni a holiaduron i rieni/gofalwyr, dysgwyr, staff a llywodraethwyr**




Ffynonellau: Ymgynghoriad Estyn ac Ymgynghoriad Arad gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, N=2,012 – 2,030

Fe wnaeth yr arolwg, y prosiect grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a'r cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid i gyd gasglu cefnogaeth gref i gynnwys yr holl staff a'r corff llywodraethol cyfan, naill ai drwy holiadur neu drwy gyfarfodydd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y bobl hyn yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol ar hyn o bryd gan nad yw barn yn cael ei chasglu yn yr un ffordd â barn dysgwyr a rhieni.

Roedd y prif heriau o ran yr holiaduron yn ymwneud â bod yn anhysbys a diogelwch y system bresennol. Codwyd pryderon cyffredinol gan rai pobl eraill ynglŷn â defnyddio holiaduron, gan gynnwys camddehongli cwestiynau, nodweddion ymatebwyr nodweddiadol (mae ymatebwyr i holiaduron yn fwy tebygol o gael rhan weithredol iawn yn addysg eu plentyn neu'n dymuno amlygu pryderon penodol), effaith sylwadau unigol os yw'r gyfradd ymateb yn isel, a'r ffordd y cânt eu dadansoddi a'u hadrodd.

Awgrymodd pobl a fynychodd cyfarfodydd y fforwm i randdeiliaid y gellid cynnwys llywodraethwyr a staff yn fwy trwy fynychu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'u meysydd cyfrifoldeb.

## 4.8 Adroddiadau arolygu

Mae Estyn yn ymdrechu i sicrhau bod ei adroddiadau arolygu yn amserol, yn glir ac yn hawdd eu deall. Dylent roi syniad clir i'r darllenydd ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r darparwr hefyd, a helpu darparwyr i wella. Gofynnwyd i ymatebwyr i brif arolwg yr ymgynghoriad i ba raddau y maent yn cytuno bod adroddiadau Estyn yn cyflawni hyn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (60%) yn cytuno bod adroddiadau arolygu yn cyflawni hyn i ryw raddau, roedd 19% yn anghytuno, a 2% yn unig oedd yn ansicr.

Roedd geiriad y cwestiwn ar yr arolygon oedd yn addas ar gyfer pobl ifanc a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ychydig yn wahanol i'r geiriad ym mhrif arolwg yr ymgynghoriad i sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall, felly ni ellir cymharu ymatebion yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd neu amwysedd ymhlith yr ymatebwyr hyn, a nododd 44% eu bod naill ai ddim yn gwybod neu nad oedd ots ganddynt.

Wedyn, gofynnwyd i ymatebwyr i ddwy ffurf yr arolwg am awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r adroddiadau. Roedd awgrymiadau'n cynnwys gwneud adroddiadau'n llai generig a mwy personol i bob darparwr trwy:

- ystyried cyd-destun yr ysgol a rhoi manylion am feysydd arfer dda
- darparu arweiniad cliriach ar sut gall darparwyr wella
- defnyddio llai o jargon
- lleihau'r cyfnod rhwng yr arolygiad a chyhoeddi'r adroddiad.

Cydnabu ymatebwyr i'r arolwg, grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a phobl a fynychodd y cyfarfodydd i randdeiliaid nad yw adroddiadau presennol yn hygyrch i bawb. Awgrym cyffredin i oresgyn hyn oedd darparu adroddiad cryno un dudalen, wedi'i anelu'n benodol at rieni a dysgwyr.

## 4.9 Arolygwyr lleyg

Mae Estyn yn cyflogi arolygwyr lleyg i ddarparu safbwynt nad yw'n addysgol ar arolygiadau ysgol. Gofynnwyd i ymatebwyr i brif arolwg yr ymgynghoriad i ba raddau roeddent yn cytuno y dylai Estyn gynnwys arolygydd lleyg ar dimau arolygu ysgolion. O'r 1,852 o ymatebion, roedd 42% yn cytuno, a 33% yn anghytuno.

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolygon oedd yn addas ar gyfer pobl ifanc a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a yw arolygwyr lleyg yn syniad da yn eu barn nhw. Dangosodd ymatebion o'r grwpiau hyn fwy o gefnogaeth ar gyfer arolygwyr lleyg, gyda 75% ohonynt yn nodi eu bod yn syniad da.

Wedyn, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr i brif arolwg yr ymgynghoriad roi sylwadau ar ddefnyddio arolygwyr lleyg. Dywedodd y rheiny a fynegodd bryderon ynghylch cynnwys arolygwyr lleyg ar dimau arolygu fod diffyg gwybodaeth addysgol yn golygu na allant lunio barnau gwybodus am berfformiad yr ysgol. Roedd y rheiny sy'n cefnogi arolygwyr lleyg yn teimlo ei bod yn bwysig i rywun gynnig safbwynt allanol ar yr arolygiad.

### 4.10 Sylwadau cyffredinol

Roedd cefnogaeth i gadw rôl arolygwyr cymheiriaid a'r enwebai ar arolygiadau. Roedd cefnogaeth hefyd i arolygwyr barhau i adeiladu ar hunanarfarniad y darparwyr eu hunain. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai fod gan Estyn rôl fwy cefnogol a chynnig arweiniad a chyngor ar arfer orau i ddarparwyr, yn ogystal â llunio barnau a herio arfer. Roedd y bobl a fynychodd y cyfarfodydd i randdeiliaid yn teimlo y byddai cael gwared ar y sylwebaeth cyn-arolygiad a anfonir cyn yr arolygiad yn lleihau'r pwysau ar ddarparwyr dros y penwythnos cyn yr arolygiad.

## 5 Casgliad

Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod awydd i wneud rhai newidiadau i'r broses arolygu, fel diwygio'r raddfa a'r geiriau barn, gweithredu holiaduron i staff a llywodraethwyr, gwneud gweithgarwch dilynol yn fwy cefnogol a chyflwyno taflen gryno o'r adroddiad. Fodd bynnag, ymddengys yn gyffredinol fod mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon â'r trefniadau a'r prosesau arolygu presennol ar y cyfan.

## 6 Y camau nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio syniadau cychwynnol Estyn ynghylch trefniadau arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Estyn yn bwriadu trafod syniadau cychwynnol ynghylch newidiadau i drefniadau arolygu yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf yn 2016, ac yn dechrau arbrofi â nhw yn nhymor yr hydref 2016. Yn ychwanegol, gallai Estyn 'roi cynnig' ar rai newidiadau yn nhymor yr haf 2016, er enghraifft trwy gyflwyno holiaduron i staff a llywodraethwyr mewn rhai arolygiadau.

Bydd Estyn yn cynnal ail ymgynghoriad cyhoeddus ledled y wlad hefyd ynghylch cynigion am newidiadau i'r trefniadau arolygu yn nhymor yr hydref 2016.

### Rhestr gyfeirio


Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd ar 10 Chwefror 2016].

Estyn (2016) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Defnyddiwyd ar 10 Chwefror 2016].